# Appendix 6.12
# Final s48 planning notice

English and Welsh versions

**Sections 48 Planning Act 2008**

**Regulation 4 Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009**

**Regulation 10 Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2009**

# NOTICE PUBLICISING A PROPOSED APPLICATION FOR A DEVELOPMENT CONSENT ORDER ("DCO")

Hefyd ar gael yn y Gymraeg ar **www.tidallagoonswanseabay.com**

Notice is hereby given that Tidal Lagoon (Swansea Bay) plc (the "Applicant") of The Lypiatts, 15 Lansdown Road, Cheltenham, Gloucestershire, GL50 2JA proposes to apply to the Secretary of State for Energy and Climate Change under section 37 of the Planning Act 2008 for a DCO (the "Application"). The proposed Application relates to the construction and operation of a tidal powered generating station to be constructed on the seabed south of and connecting to Swansea Docks (between the dredged channels of the Rivers Tawe and Neath) and on other land (including foreshore) nearby in and adjacent to the City and County of Swansea and in the County Borough of Neath Port Talbot (the "Project"). The Project is a Nationally Significant Infrastructure Project under section 14 of the Planning Act 2008.

The proposed DCO will authorise matters including:

1. construction and operation of hydro turbines and their housing with a nominal generating capacity of 240MW;
2. construction and dredging for a lagoon including around 9.5km of new sea wall and related facilities impounding around 11.5km$^2$ of seabed/foreshore;
3. electricity transmission infrastructure required for the export of electrical power via Baglan Substation in the County Borough of Neath Port Talbot including cables laid offshore and onshore, electricity step-up facilities and other electricity transmission facilities;
4. the compulsory acquisition of land including rights in or over land required for the purposes of the Project, or to facilitate or incidental to the Project; and
5. development including plant, equipment and buildings comprised in the Project including:
    - 5.1 construction sites, lay-down areas, working areas and temporary works and structures;
    - 5.2 site access, internal site roads, vehicle parking;
    - 5.3 landscaping;
    - 5.4 tourism, recreation, sporting and visitor amenities and facilities comprised in the Project;
    - 5.5 navigational lighting and safety warning systems;
    - 5.6 operation and control facilities;
    - 5.7 foul drainage provision and surface water management systems;
    - 5.8 permanent and/or temporary changes to the highway network for the Project and other access facilities;
    - 5.9 the application and/or disapplication of legislation relevant to the Project including inter alia legislation relating to the compulsory acquisition of land; and
    - 5.10 such ancillary, incidental and consequential provisions, permits or consents as are necessary and/or convenient.

The Project is an environmental impact assessment development. Accordingly, the Applicant has made preliminary environmental information available in the form of a Preliminary Environmental Information Report ("PEIR"). A Non-Technical Summary ("NTS") of the PEIR has also been prepared. A plan showing the proposed extent of the Project site (the "Redline Plan") has also been prepared. The PEIR and the NTS, together with the Redline Plan, may be inspected free of charge at **Suite 6, J-Shed, King's Road, Swansea SA1 8PL**, between the hours 1030 and 1700 Monday to Friday, and at the following locations and times:

**City and County of Swansea Civic Centre**, Oystermouth Road, Swansea SA1 3SN.
Opening hours: Mon-Fri 0830-1730 (1700 on Fridays); Saturday 1000-1500.

**Neath One Stop Shop**, Civic Centre, Neath SA11 3QZ.
Opening hours: Mon-Fri 0830-1700 (1630 on Fridays).

**Port Talbot Civic Centre**, Port Talbot SA13 1PJ.
Opening hours: Mon-Fri 0830-1700 (1630 on Fridays).

**Neath Port Talbot County Borough Council**, The Quays, Brunel Way, Baglan Energy Park, Neath SA11 2GG. Opening hours: Mon-Fri 0900-1700.

**Swansea Central Library**, Civic Centre, Oystermouth Road, Swansea SA1 3SN.
Opening hours: Tue-Fri 0830-2000; Sat & Sun 1000-1600.

**Oystermouth Library**, Dunns Lane, Mumbles, Swansea SA3 4AA.
Opening hours: Mon-Thu 0900-1800; Fri 0900-1900; Sat: 0900-1700; Sun 1200-1600.

**St Thomas Library**, Grenfell Park Road, St Thomas, Swansea SA1 8EZ.
Opening hours: Mon & Thu 0900-1730; Tue & Fri 0900-1300; Sat 1000-1300.

**Neath Library**, Victoria Gardens, Neath SA11 3BA.
Opening hours: Mon-Wed 0900-1800; Thu 0900-1700; Fri 0900-1900; Sat 0930-1300.

**Port Talbot Library**, 1st floor, Aberafan Shopping Centre, Port Talbot SA13 1PB.
Opening hours: Mon-Fri 0900-1730; Sat 0930-1700.

The PEIR, NTS and Redline Plan will be available for inspection from 27 September 2013 until at least 29 October 2013 at the above locations. A copy of the PEIR, NTS, Redline Plan and further details about the Project can also be found on the Applicant's website: **www.tidallagoonswanseabay.com**.

Copies of documents may also be obtained by calling **0800 0803055** or emailing **info@tidallagoonpower.com**. A reasonable charge may be made for copies.

Any responses to or other representations in respect of the Project, should be sent by post to **Tidal Lagoon (Swansea Bay) plc, Suite 6, J-Shed, King's Road, Swansea, SA1 8PL** or by email to **info@tidallagoonpower.com**.

Any response or representation in respect of the proposed Project, Application and/or DCO MUST (i) be received by the Applicant on or before 29 October 2013, (ii) be made in writing, (iii) state the grounds of the response or representation, (iv) indicate who is making the response or representation, and (v) give an address to which correspondence relating to the response or representation may be sent.

Responses and other representations may be made public.

DLA Piper UK LLP, Solicitors to Tidal Lagoon (Swansea Bay) plc — 27 September 2013

**Adrannau 48 o Ddeddf Cynllunio 2008**

**Rheoliad 4 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009**

**Rheoliad 10 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009**

# HYSBYSIAD YN RHOI CYHOEDDUSRWYDD I GAIS ARFAETHEDIG AM ORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU ("GCD")

Hefyd ar gael yn y Gymraeg ar **www.tidallagoonswanseabay.com**

Hysbysir drwy hyn fod Tidal Lagoon (Swansea Bay) plc (yr "Ymgeisydd") o The Lypiatts, 15 Lansdown Road, Cheltenham, Gloucestershire, GL50 2JA yn bwriadu gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd o dan adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 am GCD (y "Cais"). Mae'r Cais arfaethedig yn ymwneud ag adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu sy'n defnyddio ynni'r llanw a gaiff ei hadeiladu ar wely'r môr i'r de o Ddociau Abertawe (rhwng sianelau Afonydd Tawe a Nedd sydd wedi'u carthu) gan eu cysylltu, ac ar dir arall (gan gynnwys blaendraeth) gerllaw yn Ninas a Sir Abertawe ac ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y "Prosiect"). Mae'r Prosiect yn Brosiect Seilwaith o Bwys Cenedlaethol o dan adran 14 o Ddeddf Cynllunio 2008.

Bydd y GCD arfaethedig yn awdurdodi materion gan gynnwys:

1. adeiladu a gweithredu hydrodyrbinau a'u gorchuddion gyda chapasiti cynhyrchu nominal o 240MW;
2. gwaith adeiladu a charthu ar gyfer morlyn gan gynnwys tua 9.5km o forglawdd newydd a chyfleusterau cysylltiedig a fydd yn argáu tua 11.5km$^2$ o wely'r môr/blaendraeth;
3. seilwaith trosglwyddo trydan sydd ei angen i allforio ynni trydanol drwy Is-orsaf Baglan ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gan gynnwys ceblau a osodir ar y môr ac ar y tir, cyfleusterau camu-i-fyny ar gyfer trydan a chyfleusterau eraill ar gyfer trosglwyddo trydan;
4. caffael tir yn orfodol gan gynnwys hawliau mewn neu dros dir sydd ei angen at ddibenion y Prosiect, neu i hwyluso'r Prosiect neu'n gysylltiedig â'r Prosiect;
5. gwaith datblygu gan gynnwys peiriannau, cyfarpar ac adeiladau sydd wedi'u cynnwys yn y Prosiect gan gynnwys:
   - 5.1 safleoedd adeiladu, ardaloedd storio dros dro, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro;
   - 5.2 mynediad i'r safle, ffyrdd mewnol ar y safle, mannau parcio i gerbydau;
   - 5.3 gwaith tirlunio;
   - 5.4 amwynderau a chyfleusterau twristiaeth, hamdden, chwaraeon ac ymwelwyr sydd wedi'u cynnwys yn y Prosiect;
   - 5.5 systemau goleuo a diogelwch ar gyfer mordwyo;
   - 5.6 cyfleusterau gweithredu a rheoli;
   - 5.7 darpariaeth draenio dŵr budr a systemau rheoli dŵr wyneb;
   - 5.8 newidiadau parhaol a/neu dros dro i'r rhwydwaith priffyrdd ar gyfer y Prosiect a chyfleusterau mynediad eraill;
   - 5.9 cymhwyso a/neu ddatgymhwyso deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Prosiect gan gynnwys inter alia ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chaffael tir yn orfodol;
   - 5.10 y cyfryw ddarpariaethau, trwyddedau neu ganiatadau atodol, achlysurol neu ganlyniadol ag sydd eu hangen a/neu sy'n gyfleus.

# Tidal Lagoon (Swansea Bay) plc

Mae'r Prosiect yn ddatblygiad sy'n gofyn am asesiad o'r effaith amgylcheddol. Felly, mae'r Ymgeisydd wedi sicrhau bod gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol ar gael ar ffurf Adroddiad ar Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Mae Crynodeb Annhechnegol o'r PEIR wedi'i baratoi hefyd. Mae cynllun yn dangos rhychwant arfaethedig safle'r Prosiect ("Cynllun Redline") hefyd wedi cael ei baratoi. Gellir gweld yr Adroddiad ar Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a'r Crynodeb Annhechnegol ynghŵd â'r Cynllun Redline am ddim yn **Ystafell 6, J-Shed, Ffordd y Brenin, Abertawe SA1 8PL**, rhwng 1030 a 1700, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac yn y lleoliadau a'r amseroedd canlynol:

**Canolfan Ddinesig Dinas a Sir Abertawe**, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN. Oriau agor: o ddydd Llun i ddydd Gwener 0830-1730 (1700 ar ddydd Gwener); dydd Sadwrn 1000-1500.

**Siop Un Stop Castell-nedd**, Y Ganolfan Ddinesig, Castell-nedd SA11 3QZ. Oriau agor: o ddydd Llun i ddydd Gwener 0830-1700 (1630 ar ddydd Gwener).

**Canolfan Ddinesig Port Talbot**, Port Talbot SA13 1PJ. Oriau agor: o ddydd Llun i ddydd Gwener 0830-1700 (1630 ar ddydd Gwener).

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2GG. Oriau agor: o ddydd Llun i ddydd Gwener 0900-1700.

**Llyfrgell Ganolog Abertawe**, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN. Oriau agor: o ddydd Mawrth i ddydd Gwener 0830-2000; dydd Sadwrn a dydd Sul 1000-1600.

**Llyfrgell Ystumllwynarth**, Lôn Dunns, Y Mwmbwls, Abertawe SA3 4AA. Oriau agor: o ddydd Llun i ddydd Iau 0900-1800; dydd Gwener 0900-1900; dydd Sadwrn: 0900-1700; dydd Sul 1200-1600.

**Llyfrgell St Thomas**, Heol Parc Grenfell, St Thomas, Abertawe SA1 8EZ. Oriau agor: dydd Llun a dydd Iau 0900-1730; dydd Mawrth a dydd Gwener 0900-1300; dydd Sadwrn 1000-1300.

**Llyfrgell Castell-nedd**, Gerddi Fictoria, Castell-nedd SA11 3BA. Oriau agor: o ddydd Llun i ddydd Mercher 0900-1800; dydd Iau 0900-1700; dydd Gwener 0900-1900; dydd Sadwrn 0930-1300.

**Llyfrgell Port Talbot**, Llawr 1af, Canolfan Siopa Aberafan, Port Talbot SA13 1PB. Oriau agor: o ddydd Llun i ddydd Gwener 0900-1730; dydd Sadwrn 0930-1700.

Bydd yr Adroddiad ar Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, y Crynodeb Annhechnegol a'r Cynllun Redline ar gael i'w darllen o 27 Medi 2013 tan 29 Hydref 2013 o leiaf yn y lleoliadau uchod. Gellir gweld copi o'r Adroddiad ar Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, y Crynodeb Annhechnegol y Cynllun Redline a manylion pellach am y Prosiect ar wefan yr Ymgeisydd: **www.tidallagoonswanseabay.com**.

Gellir cael copïau o ddogfennau hefyd drwy ffonio 0800 0803055 neu drwy anfon e-bost i **info@tidallagoonpower.com**. Efallai y codir tâl rhesymol am gopïau.

Dylid anfon unrhyw ymatebion neu sylwadau eraill am y Prosiect drwy'r post i **Tidal Lagoon (Swansea Bay) plc, Ystafell 6, J-Shed, Ffordd y Brenin, Abertawe, SA1 8PL** neu drwy e-bost i **info@tidallagoonpower.com**.

RHAID i unrhyw ymateb neu sylw am y Prosiect arfaethedig, y Cais a/neu'r GCD (i) gael ei dderbyn gan yr Ymgeisydd ar neu cyn 29 Hydref 2013, (ii) gael ei wneud yn ysgrifenedig, (iii) nodi'r sail dros yr ymateb neu'r sylw, (iv) nodi pwy sy'n anfon yr ymateb neu'r sylw, a (v) nodi cyfeiriad ar gyfer anfon gohebiaeth sy'n ymwneud â'r ymateb neu'r sylw.

Gall ymatebion a sylwadau eraill gael eu cyhoeddi.

DLA Piper UK LLP, Cyfreithwyr Tidal Lagoon (Swansea Bay) plc — 27 Medi 2013